| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **28 CHWEFROR 2018** |
| **PWNC:** | **POLISI RHYDDHAD DEWISOL Y DRETH GYNGOR** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO :** | **CYNG. JOHN GRIFFITH** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL** | **MARC JONES - PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **GERAINT JONES – RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU (EST. 2651)** |
| **GWEITHREDU :** | **MABWYSIADU FFRAMWAITH POLISI RHYDDHAD DEWISOL Y DRETH GYNGOR A DIRPRWYO PWERAU I'R PWYLLGOR GWAITH A'R PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad yn gofyn i Gyngor Sir Ynys Mon (Cyngor llawn) i fabwysiadu fframwaith polisi mewn perthynas â Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2018, wedi argymell bod y Cyngor llawn yn derbyn yr argymhellion sy'n cael eu rhestri isod mewn perthynas â'r fframwaith polisi Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor –

- *"Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor llawn) ei fod, yn y cyfarfod ar 28 Chwefror 2018, yn cymeradwyo Polisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth Gyngor o dan adran 13A (1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (DCLlL 1992) - fel y manylir yn* ***Atodiad A.***

- *Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018, ei fod yn dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddiddymu, ailddeddfu a / neu ddiwygio ei Bolisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth y Cyngor.*

- *Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018, ei fod yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 benderfynu ar geisiadau a wnaed o dan adran 13A(1)(c) o DCLlL 1992 ac unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ohoni, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau polisi a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol / Llywodraeth Cymru, y Cyngor llawn neu'r Pwyllgor Gwaith."*

## 2. RHESYMAU A CEFNDIR

Mae Adran 13A, is-adrannau (1)(c); (6) a (7), o DCLlL 1992 (yn unol ag Adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 2012) yn rhoi pŵer i awdurdod bilio ostwng y dreth sy'n daladwy fel a ganlyn:-

**(1)(c)** Mewn unrhyw achos, gellir ei lleihau i'r fath raddau (neu, os yw'r swm wedi'i ostwng o dan baragraffau (a) neu (b), i'r fath raddau pellach) y mae'r awdurdod bilio ar gyfer yr ardal lleol yn ystyried ei fod yn addas;

**(6)** Mae'r grym o dan is-adran (1) (c) yn cynnwys grym i ostwng swm i ddim; a

**(7)** Gellir defnyddio'r grym o dan is-adran (1) (c) mewn perthynas ag achosion penodol neu drwy benderfynu ar ddosbarth o achosion lle bydd yr atebolrwydd yn cael ei ostwng i'r fath raddau ag y darperir ar ei gyfer yn y penderfyniad.

Mae hyn yn golygu y gall y Cyngor llawn roi rhyddhad dewisol mewn perthynas ag unrhyw swm dreth gyngor sy'n ddyledus, hyd yn oed os yw'r Cyngor wedi dyfarnu gostyngiad eisoes o dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor trwy Adran 13A, is-adran (1) (b).

Ar hyn o bryd nid yw’r Cyngor llawn wedi mabwysiadu unrhyw Bolisi Rhyddhad Dewisol o’r fath ar gyfer y Dreth Gyngor ac, felly, nid oes unrhyw drefniadau dirprwyo wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn i ystyried ceisiadau o'r fath. Ar hyn o bryd byddai'n rhaid i’r Cyngor llawn ystyried pob cais yn unigol. Hyd yma ni wnaed unrhyw gais i’r Cyngor ystyried achos unigol nac i gyflwyno dosbarthiadau penodol y gellid darparu'r rhyddhad dewisol oddi tanynt.

Fodd bynnag, yn ystod y misoedd diwethaf gwnaed sylwadau gan drethdalwyr a sefydliadau y dylai'r Cyngor llawn, o dan rai amgylchiadau, fabwysiadu polisi i ddyfarnu Rhyddhad Dewisol at y Dreth Gyngor ar gyfer dosbarthiadau o unigolion neu anheddau - yn enwedig mewn perthynas â phobl sy'n gadael gofal, rhai dosbarthiadau o anheddau y codir premiwm Dreth Gyngor arnynt ac ar gyfer anheddau unigol a effeithiwyd gan y tywydd garw a gafwyd yn ddiweddar.

Felly, cynigir cyflwyno polisi o'r fath gyda’i phwrpas: -

**a)** Adran 1 y polisi arfaethedig sy'n manylu ar y dosbarthiadau o achosion a all fod â hawl i ostyngiad yn unol ag Adran 13A (1) (c);

**b)** Adran 2 y polisi arfaethedig sy'n amlinellu'r amodau y bydd raid cwrdd â hwy er mwyn i'r Cyngor ystyried rhoi rhyddhad o dan Adran 13A (1) (c) ar gyfer yr holl achosion eraill nad ydynt wedi eu cynnwys yn Adran 1.

Yn y pen draw, bwriedir i'r polisi alluogi'r Cyngor i roi rhyddhad i'r rheini sy’n wynebu’r caledi ariannol mwyaf eithafol.

Mae'r Cyngor llawn eisoes yn darparu Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor yn unol ag Adran 13A (1) (b) o DCLlL 1992, ac mae'r Polisi Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor ar wahân i’r Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor ac yn annibynnol arno.

**A. <u>I'w gynnwys yn Adran 1 y polisi arfaethedig: yr achos dros eithrio’r holl bobl sy'n gadael gofal yn y sir rhag talu’r Dreth Gyngor neu i gael gostyngiad.</u>**

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud i roi cymorth ariannol i bobl sy'n gadael gofal tuag at eu dreth gyngor.

Mae rhianta corfforaethol yn swyddogaeth statudol gan y Cyngor. Yr egwyddor sylfaenol yw y bydd pob awdurdod lleol yn ceisio sicrhau’r un canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal ag y byddai pob rhiant da yn eu dymuno i'w plant eu hunain.

Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni ymhlith y grwpiau mwyaf bregus yn ein cymuned. Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau ar gyfer y grŵp hwn yn wael ac, fel rhieni corfforaethol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cadw'n ddiogel, sicrhau bod eu profiadau mewn gofal yn gadarnhaol a gwella eu cyfleoedd bywyd yn barhaus.

Mae adroddiad yn 2015 gan y Gymdeithas Plant (The Wolf at the Door. How council tax debt collection is harming children) yn awgrymu bod rheini sy'n gadael gofal yn grŵp arbennig o fregus o ran dyled dreth gyngor. ‘Roedd yn nodi fod pobl sy'n gadael gofal ac sy’n symud i lety annibynnol ac yn dechrau rheoli eu cyllidebau eu hunain am y tro cyntaf yn wynebu amser heriol, yn enwedig os ydynt yn mynd i ddyled gyda’u dreth gyngor. ‘Roedd nifer o argymhellion yn adroddiad y Gymdeithas Plant, gan gynnwys gwneud y rheini sy'n gadael gofal yn gymwys am ddisgownt dreth gyngor. Byddai hyn yn helpu i leddfu rhywfaint o'r pwysau cychwynnol a byddai'n eistedd ochr yn ochr â nifer o drefniadau cymorth ariannol eraill sydd ar gael i bobl sy'n gadael gofal.

Ar hyn o bryd, nid yw pobl sy'n gadael gofal wedi eu heithrio'n benodol yn neddfwriaeth y Dreth Gyngor. O ganlyniad, yr unig ffordd o'u heithrio yw trwy roi disgownt dewisol o dan Adran 13 A (1) (c). Fel y crybwyllwyd yn gynharach, gellir ystyried gostyngiad dewisol naill ai fesul achos neu drwy gynllun a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn neu'r Pwyllgor Gwaith a all benderfynu creu dosbarth o ostyngiadau / disgowntiau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal. Y bobl sy'n talu'r Dreth Gyngor yn Ynys Môn fyddai'n cwrdd â chost pob opsiwn.

Rhagwelir mai cymharol fach fydd nifer yr unigolion a fydd yn gymwys ac, ar hyn o bryd, dim ond un unigolyn cymwys a nodwyd. Mae hyn oherwydd bod nifer fawr o bobl sy'n gadael gofal yn byw mewn llety â chymorth neu dai amlddeiliadaeth neu'n cael Gostyngiad y Dreth Gyngor (sy'n cwrdd â'u costau tai yn llawn) ac felly naill ai nid ydynt yn atebol yn bersonol am y Dreth Gyngor neu nid oes ganddynt swm i'w dalu. Mae eraill wedi eu lleoli y tu allan i ardal yr Awdurdod.

Mae'r polisi arfaethedig wedi'i ddrafftio gyda manylion penodol o ran y meini prawf cymhwyster ar gyfer pobl sy'n gadael gofal ac yn nodi sut yr ymdrinnir ag atebolrwydd unigol ac ar y cyd, ynghyd â maint y disgownt a roddir mewn achosion o'r fath.

**B. <u>I'w gynnwys yn Adran 1 y polisi arfaethedig: yr achos i ymestyn y cyfnod lle nad yw premiwm y Dreth Gyngor yn daladwy dan rai amgylchiadau h.y. os yw'r annedd wedi bod yn wag am dymor hir a bod gwaith strwythurol yn cael ei wneud arni fel y bydd yn addas i rywun fyw ynddi.</u>**

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud i eithrio rhai dosbarthiadau penodol o anheddau rhag y premiwm Dreth Gyngor am gyfnod fwy nag a ganiateir ar hyn o bryd o dan y ddeddfwriaeth dreth gyngor.

Ar 10 Mawrth 2016 defnyddiodd y Cyngor llawn ei bwerau dewisol, o dan Adrannau 12A a 12B o DCLlL 1992, yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 i gael gwared ar unrhyw ddisgownt(iau) ar gyfer anheddau sydd wedi bod yn wag am dymor hir a chodi swm uwch o dreth gyngor (a elwir yn Bremiwm Dreth Gyngor) i ddod i rym ar 1 Ebrill 2017 a bod y premiwm yn 25% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar gyfer anheddau sydd wedi bod yn wag am dymor hir.

Penderfynodd y Cyngor llawn:-

*"Bod y Cyngor llawn, hefyd yn cyfarwyddo ac yn awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, bod y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn (fel awdurdod bilio yng Nghymru), cyn y bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfrifo Sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18, yn cael gwybod a fydd angen penderfynu o dan adran 13A o Ddeddf 1992 i ddefnyddio pwerau dewisol i leihau atebolrwydd am y dreth gyngor sy'n deillio o godi premiwm Dreth Gyngor, i'r fath raddau ag y gwêl yn briodol. O ran tegwch a thryloywder, pe bai angen gwneud penderfyniad o'r fath, rhoddir cyngor ynghylch a ddylai'r Cyngor llawn fabwysiadu polisi clir ynghylch a ddylid defnyddio'r pwerau hyn ac, os felly, sut, a chynnwys yr awdurdod dirprwyo priodol i wneud y penderfyniad yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ond gan gydnabod hefyd y bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ac ar ôl cymryd i ystyriaeth yr holl amgylchiadau. "*

Cyn gosod y gofyniad Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18, ni nodwyd unrhyw achosion nac amgylchiadau i'r Cyngor llawn ddefnyddio ei bwerau dewisol i leihau atebolrwydd am y dreth gyngor o ganlyniad i bremiwm Dreth Gyngor ond, ers 1 Ebrill 2017 (pan gyflwynwyd y premiwm), mae math o achos wedi dod i'r amlwg lle mae'r sawl sy'n atebol i dalu'r Dreth Gyngor yn ceisio dod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd ond bod y premiwm yn cael ei godi arno, h.y. mae'r person yn cyflawni nod y Cyngor o dan y polisi, sef dod ag eiddo sydd wedi bod yn wag am dymor hir yn ôl i ddefnydd. Cyn iddo osod ei ofyniad Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19, gofynnir i'r Cyngor a yw'n dymuno defnyddio ei bŵer dewisol i ymestyn y cyfnod cyn y gellir codi'r premiwm am y dosbarth hwn o eiddo. Y bobl sy'n talu'r Dreth Gyngor yn Ynys Môn fyddai'n cwrdd â chost polisi o'r fath.

Ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth y Dreth Gyngor, mae anheddau gwag y mae angen gwneud gwaith strwythurol neu waith adnewyddu sylweddol arnynt wedi'u heithrio rhag talu'r Dreth Gyngor am hyd at 12 mis ac, ar ôl 12 mis mae'r Cyngor wedi penderfynu, hyd at 31 Mawrth 2017, fod y dreth gyngor safonol yn daladwy. O 1 Ebrill 2017, penderfynodd y Cyngor llawn y byddai premiwm o 25% hefyd yn daladwy ar ôl 12 mis gyda'r nod o ddod ag eiddo gwag hirdymor o'r fath yn ôl i ddefnydd. Mae'r Awdurdod wedi cael sylwadau gan drethdalwyr sydd wedi prynu eiddo sydd wedi bod yn wag am dymor hir (dros 12 mis eisoes) ac sydd wedi dechrau gwneud gwaith arnynt fel y gellir eu hailddefnyddio fel cartref yn y dyfodol, ond sy'n gorfod talu'r premiwm ar hyn o bryd. Gofynnir i'r Cyngor llawn ystyried darparu rhyddhad dewisol rhag talu'r premiwm yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn y polisi h.y. ni chodir premiwm am gyfnod o 24 mis o'r dyddiad y tybir bod angen gwneud gwaith o'r fath ar yr eiddo ac ar yr amod, hefyd, bod y gwaith hwnnw'n cael ei wneud ar hyn o bryd.

**C. I'w gynnwys yn Adran 2 y polisi arfaethedig: yr achos i'r Cyngor llawn gytuno ar bolisi ar gyfer gwneud cais am ryddhad dewisol tuag at y dreth gyngor, dirprwyo newidiadau i'r polisi yn y dyfodol i'r Pwyllgor Gwaith a chytuno ar drefniadau gweinyddol i'r Pennaeth Swyddogaethau (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ddelio â cheisiadau fesul achos.**

Ar hyn o bryd, gan nad yw'r Cyngor llawn wedi cytuno ar bolisi nac wedi dirprwyo'r swyddogaeth i benderfynu ar geisiadau am ryddhad dewisol tuag at y Dreth Gyngor o dan Adran 13A (1) (c) o DCLlL 1992, mae'n rhaid i'r Cyngor llawn benderfynu ar geisiadau o'r fath. Mae rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o dan Adran 13A (1) (b) o'r DCLlL 1992 yn neilltuo'r swyddogaeth i benderfynu neu ddiddymu'r cynllun i'r Cyngor llawn. Nid oes unrhyw ddarpariaeth o'r fath wedi'i gwneud mewn perthynas ag Adran 13 (1) (c) ynghylch cynllun rhyddhad dewisol tuag at y dreth gyngor.

Ar gyfer ceisiadau a wnaed yn flaenorol am ryddhad dewisol, mae'r Cyngor llawn wedi penderfynu nad y Cyngor llawn ddylai ddelio â hwy am nad honno yw'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o ymdrin â'r fath geisiadau, ac mae wedi dirprwyo grym i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 benderfynu ar geisiadau dewisol o'r fath. Rhan 3.5.3.5.19 o'r Cyfansoddiad yw'r ddarpariaeth sy'n dirprwyo pŵer i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 benderfynu ceisiadau o dan Adrannau 44A, 47 a 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllaw polisi a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, y Cyngor neu'r Pwyllgor Gwaith.

Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â rhyddhad dewisol o dan Drethi Busnes mewn perthynas â chymorth oherwydd deiliadaeth rannol (Adran 44A), elusennau a sefydliadau di-elw (Adran 47) a rhyddhad caledi (Adran 49). Mae'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 wedi sefydlu trefniadau gweinyddol i ddelio â cheisiadau o'r fath sy'n cymryd i ystyriaeth ganllawiau'r Cyngor llawn, y Pwyllgor Gwaith a'r Cynulliad Cenedlaethol / Llywodraeth Cymru. Cynigir yr un trefniant bellach o dan Adran 13A (1) (c) o DCLlL 1992 a manylir ar hyn yn y polisi arfaethedig yn **Atodiad A**.

## 3. GOBLYGIADAU ARIANNOL A RISG

Mae £60k yn y gyllideb gyfredol i gwrdd â'r gost i'r Cyngor o weithredu cynlluniau rhyddhad dewisol tuag at drethi busnes. Amcangyfrifir bod y gwariant cyfredol yn unol â'r gyllideb a broffiliwyd am y flwyddyn. Felly, byddai'n rhaid cynyddu'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2018/19 i gwrdd â chost y rhyddhad dewisol arfaethedig tuag at y Dreth Gyngor. Amcangyfrifir y dylid ychwanegu **£8k** at y gyllideb i gwrdd â chostau rhyddhad dewisol o ran trethi lleol h.y. y cynllun rhyddhad dewisol tuag at y dreth gyngor, os caiff ei gymeradwyo. Mae hyn yn seiliedig ar y niferoedd a'r ceisiadau llwyddiannus a ragwelir isod:-

**Adran 1**
Y rheini sy'n gadael gofal **£3k** (dyfarniadau 100% sy'n cyfateb i 2 dreth gyngor gyfartalog Band D am y flwyddyn);

Premiwm **£1k** (dyfarniadau 25% sy’n cyfateb yn fras i oddeutu 3 neu 4 dreth gyngor gyfartalog Band D am y flwyddyn).

**Adran 2**
Fesul Achos **£4k** (yn seiliedig ar swm cyfartalog y dyledion y cymeradwywyd eu dileu dan y pennawd "amgylchiadau ariannol gwael).

Efallai na fydd y gyllideb a gymeradwyir yn ddigon ac, i leddfu’r risg, bydd yna monitro gwariant yn chwarterol.

**4. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

Mae’r Cyngor yn gallu mabwysiadau a gwneud trefniadau gweinyddol mewn perthynas â Chynllun Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor. Gall penderfyniadau a wneir tan rhan Adran 13A (1) (c) o’r DCLIL 1992 cael eu dirprwyo gan y Gyngor llawn i’r Pwyllgor Gwaith neu i swyddogion.

Argymhellir, gan efallai y bydd yn rhaid ymdrin â cheisiadau o'r fath fel mater o frys ar adegau a gallai adroddiadau gynnwys gwybodaeth fanwl a phersonol, ni fyddai amserlen cyfarfodydd yn hwyluso gweinyddu ceisiadau mewn modd effeithiol ac effeithlon ac, felly gallai’r Cyngor llawn wneud y fath drefniadau gweinyddol i ddelio â cheisiadau, fel a manylir yn y fframwaith polisi. Fel arall, byddai rhaid i’r Cyngor llawn ddelio â phob cais yn unigol.

**5. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB**

Mae asesiad lleol o’r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gynnal mewn perthynas â’r fframwaith polisi.

**6. GOBLYGIADAU’R IAITH GYMRAEG**

Mae’r fframwaith polisi arfaethedig yn ddwyieithog. Mae ffurflenni hawlio, naill a’i trwy ddulliau electronig neu trwy bapur, hefyd yn ddwyieithog.

Mae holl ohebiaeth parthed rhybuddion penderfyniadau yn ddwyieithog ac mae’r gwasanaeth yn gallu siarad a gohebu yn yr iaith mae’r cwsmer yn ei ddewis. Serch hynny, mae meddalwedd gweinyddu’r Cynllun yn yr uniaith Saesneg (does dim dewis gwahanol ar gael yn y farchnad).

**7. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Wrth ddrafftio’r Polisi Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor, cymerwyd i ystyriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut mae’r fframwaith polisi yn cefnogi’r nodau llesiant. Yn y pen draw, bwriedir i'r polisi alluogi'r Cyngor llawn i roi rhyddhad yn y Dreth Gygnor i'r rheini sy’n wynebu’r caledi ariannol mwyaf eithafol.

Mae’r Cynllun yn cyfrannu at y nodau llesiant o Gymru lewyrchus, Cymru sy’n iachach, Chymru sy’n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus.

**8. DOGFENNAU CEFNDIROL**

Y Gymdeithas Plant - Eithriad Dreth Gyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru.

## 9. ARGYMHELLION

- Bod y Cyngor llawn yn ffurfiol yn mabwysiadu'r Framwaith Polisi Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor tan Rhan 13A (1) (c) o'r DCLIL 1992, fel a manylir yn Atodiad A.Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol (efo'r newid uchod sy'n cael ei argymell) am flwyddyn ariannol 2018/19 **(gweler Atodiad C);**

- Bod y Cyngor Llawn yn dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddiddymu, ailddeddfu a / neu ddiwygio ei Bolisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth y Cyngor, a.

- Bod y Cyngor Llawn yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 benderfynu ar geisiadau a wnaed o dan adran 13A(1)(c) o DCLIL 1992 ac unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ohoni, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau polisi a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol / Llywodraeth Cymru, y Cyngor llawn neu'r Pwyllgor Gwaith."

## 10. ATODIADAU

- **Atodiad A –** Polisi Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor arfaethedig

**GERAINT JONES**
**RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU** **19 CHWEFROR 2018**

# POLISI RHYDDHAD DEWISOL TUAG AT Y DRETH GYNGOR

**Cefndir**

Mae Adran 13A, is-adrannau (1) (c); (6) a (7), o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (DCLlL) (yn unol ag Adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 2012) yn rhoi'r grym i awdurdod bilio ostwng swm y dreth sy'n daladwy fel a ganlyn:-

**(1)(c)** mmewn unrhyw achos, gellir ei lleihau i'r fath raddau (neu i raddau pellach os yw'r swm wedi ei ostwng dan baragraffau (a) neu (b)) sydd yn addas ym marn yr awdurdod bilio ar gyfer yr ardal ble lleolir yr annedd;

**(6)** Mae'r grym a roddir dan is-adran (1) (c) yn cynnwys y grym i ostwng y swm i ddim; a

**(7)** Gellir defnyddio'r grym o dan is-adran (1) (c) mewn perthynas ag achosion penodol neu drwy benderfynu ar ddosbarth o achosion penodol lle bydd yr atebolrwydd yn cael ei ostwng i'r graddau y darperir ar ei gyfer yn y penderfyniad.

Mae hyn yn golygu y gall Cyngor Sir Ynys Môn roi rhyddhad dewisol mewn perthynas ag unrhyw swm dreth gyngor sy'n ddyledus iddo, hyd yn oed os yw'r Cyngor eisoes wedi dyfarnu gostyngiad dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn unol ag Adran 13A (1) (b ).

Mae'r polisi hwn yn nodi'r modd y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried ac yn caniatáu gostyngiadau dan Adran 13A (1) (c).

**Pwrpas y polisi**

**a)** Adran 1 y polisi arfaethedig sy'n manylu ar y dosbarthiadau o achosion a all fod yn gymwys i dderbyn gostyngiad yn unol ag Adran 13A (1) (c);

**b)** Adran 2 y polisi arfaethedig sy'n amlinellu'r amodau y bydd raid eu bodloni er mwyn i'r Cyngor ystyried rhoi rhyddhad o dan Adran 13A (1) (c) ar gyfer pob achos arall nad yw wedi'i gynnwys yn Adran 1.

Bwriad y polisi yn y pen draw yw galluogi'r Cyngor i roi rhyddhad i'r rhai sy'n dioddef y caledi ariannol mwyaf eithafol o ran costau'r Dreth Gyngor.

Mae'r Cyngor eisoes â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor yn unol ag Adran 13A (1) (b) o DCLlL 1992. Gellir lawrlwytho Cynllun y Cyngor ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn:-

http://www.ynysmon.gov.uk/lles-ac-arian/y-dreth-gyngor/lleihewch-eich-bil-dreth-gyngor/cynllun-gostyngiadaur-dreth-gyngor/

Mae'r polisi hwn ar ryddhad dewisol yn un gwahanol ac yn annibynnol ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

## Adran 1

## A. Adran 13A (1) (c) rhyddhad dewisol ar gyfer dosbarthiadau o bobl

### 1. Person(au) cymwys - gadawyr gofal

Gall y Cyngor benderfynu peidio â chodi unrhyw dreth gyngor o gwbl ar y rhai sy'n gadael gofal ar yr amod eu bod yn cwrdd â'r holl feini prawf canlynol:-

- Bod y person ifanc yn adawr gofal perthnasol fel y'i diffinnir yn Neddf Plant (Gadael Gofal) 2000;
- Bod y person ifanc yn un yr oedd Cyngor Sir Ynys Môn yn rhiant corfforaethol iddo/iddi yn flaenorol;
- Bod y person ifanc wedi gadael gofal ac mae rhwng 18 a 21 oed. Mae'r person yn byw yn ardal Cyngor Sir Ynys Môn ac mae'n atebol i dalu dreth gyngor i Gyngor Sir Ynys Môn.

Pan fo'r unigolyn sydd wedi gadael gofal yn atebol am fwy nag un annedd, rhoddir rhyddhad dewisol ar gyfer un eiddo yn unig - sef unig neu brif breswylfa'r person.

Os mai'r unigolyn sydd wedi gadael gofal yw'r unig berson sy'n byw yn yr annedd, ac os yw dros 18 oed, bydd swm y dreth gyngor sydd i'w dalu ar gyfer yr annedd honno'n cael ei ostwng i ddim.

Pan fo'r unigolyn sydd wedi gadael gofal yn byw gyda pherson arall yn yr eiddo ond, yn rhinwedd Adran 6 (2) o DCLlL 1992 "hierarchaeth atebolrwydd", bod yr unigolyn sydd wedi gadael gofal yn gwbl gyfrifol am dalu'r dreth gyngor (ac nad yw atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol yn gymwys), caniateir gostyngiad o 25% yn y dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer yr annedd.

Pan fo'r unigolyn sydd wedi gadael gofal yn atebol ar y cyd ac yn unigol am yr annedd hefo rhywun arall sydd wedi gadael gofal, naill ai fel gŵr neu wraig neu fel partner (ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn), ni chodir unrhyw dreth gyngor am yr annedd honno.

Pan fo'r unigolyn sydd wedi gadael gofal yn atebol ar y cyd ac yn unigol gyda gŵr neu wraig neu bartner nad ydynt wedi gadael gofal (ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn), bydd gostyngiad o 25% yn swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer yr annedd.

Os oes gan unigolyn sydd wedi gadael gofal denantiaeth ar y cyd â thenant arall (nad yw wedi gadael gofal) ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn sy'n byw yn yr eiddo, bydd gostyngiad o 25% yn swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer yr annedd.

Os yw unigolyn sydd wedi gadael gofal â thenantiaeth ar y cyd â thenant arall (sydd hefyd wedi gadael gofal) ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn sy'n byw yn yr eiddo, ni chodir unrhyw dreth gyngor am yr annedd honno.

### 2. Gofyn am gymorth

Fel rheol, bydd ceisiadau am ostyngiad yn cael eu gwneud gan Wasanaeth Plant y Cyngor. Yn yr achos hwn, bydd ceisiadau:-

- Yn cael eu hanfon drwy e-bost at dîm y dreth gyngor;
- Yn cadarnhau bod yr unigolyn sydd wedi gadael gofal wedi cael gwybod am y bwriad i gyflwyno'r cais ar ei ran ac y bydd y wybodaeth honno'n cael ei rhannu gyda thîm y dreth gyngor at y diben hwn a bod yr unigolyn wedi cytuno i hynny;
- Yn cadarnhau bod yr unigolyn sydd wedi gadael gofal yn cwrdd â'r gofynion o ran hawl;
- Yn cadarnhau enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r unigolyn sydd wedi gadael gofal.

Gall pobl ifanc gymwys sydd wedi gadael gofal gyflwyno ceisiadau yn ysgrifenedig yn uniongyrchol i'r tîm dreth gyngor. Dylai ceisiadau gynnwys tystiolaeth ategol gan Wasanaeth Plant y Cyngor fod y person ifanc sydd wedi gadael gofal yn bodloni'r gofynion. Fel arall, dylai ceisiadau gadarnhau bod yr ymgeisydd wedi caniatáu i'r tîm dreth gyngor gael gwybodaeth yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Plant.

Wrth wneud y penderfyniad, asesir y canlynol:

- A yw'r person ifanc sydd wedi gadael gofal wedi gwneud cais am unrhyw rhyddhad, eithriadau neu ddisgowntiau cenedlaethol y byddent yn gymwys iddynt. Rhaid i'r rhain gael eu hasesu cyn caniatáu rhyddhad dewisol i unigolion sydd wedi gadael gofal;
- A yw'r person ifanc sydd wedi gadael gofal wedi gwneud cais am unrhyw ostyngiad yn y Dreth Gyngor y byddent yn gymwys iddo. Dylai hyn gael ei asesu cyn rhoi rhyddhad Gadael Gofal;
- Dyddiad y diwrnod cyn pen-blwydd y sawl sydd wedi gadael gofal yn 21 oed sy’n pennu’r diwrnod y daw cyfnod y dyfarniad i ben;
- A yw Gwasanaeth Plant y Cyngor neu gorff cyhoeddus neu sefydliad proffesiynol arall wedi cadarnhau bod y person ifanc yng ngofal (yn derbyn gofal) gan y Cyngor;
- Pa Gyngor yw'r awdurdod bilio’r dreth gyngor y mae'n rhaid i’r person ifanc sydd wedi gadael gofal dalu dreth gyngor iddo?

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau, yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

## B. Adran 13A (1) (c) rhyddhad dewisol ar gyfer categorïau o anheddau

### 1. Annedd(anheddau) cymwys - anheddau sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir y mae gwaith strwythurol yn cael ei wneud arnynt fel y gall pobl fyw ynddynt

Efallai na fydd y Cyngor yn codi’r premiwm Dreth Gyngor (fel y penderfynwyd arno ar gyfer y cyfnod perthnasol gan y Cyngor) ar gyfer anheddau dynodedig sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:-

- Mae'r annedd yn cael ei hystyried fel annedd Eithriedig Dosbarth A o dan Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Eithriedig) 1992 OS 558 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Eithriedig) (Diwygiad) (Cymru) 2000 OS 1025 (W.61);
- Mae gwaith atgyweirio mawr o fath strwythurol yn cael ei wneud yn yr annedd er mwyn ei gwneud yn addas i bobl fyw ynddi;
- Mae'r annedd wedi bod yn wag h.y. neb yn byw ynddi fel eu prif neu unig breswylfan, am gyfnod nad yw’n fwy na 24 mis.

### 2. Gofyn am ryddhad

Gall perchennog yr annedd ddynodedig gyflwyno cais ysgrifenedig yn uniongyrchol i'r tîm dreth gyngor. Dylai ceisiadau gynnwys tystiolaeth ategol o waith atgyweirio strwythurol mawr sy'n cael ei wneud yn yr annedd fel y gall rhywun fyw ynddi. Bydd y tîm dreth gyngor yn cynnal archwiliad o'r eiddo i wirio cyflwr presennol yr eiddo a'r gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn cadarnhau a ydyw o natur strwythurol ai peidio.

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau, yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

## Adran 2

**C. Adran 13a (1) (c) rhyddhad dewisol ar gyfer personau neu gategorïau o anheddau ac eithrio'r rhai a ddynodir yn Adran 1 y polisi hwn**

### 1. Cynllun rhyddhad dewisol

Mae Adran 13A (1) (c) yn caniatáu i'r Cyngor y disgresiwn i roi cymorth i dalwyr y dreth gyngor mewn achosion lle nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu disgownt, eithriad neu ostyngiad neu mewn amgylchiadau lle mae'r Cyngor yn teimlo bod lefel y disgownt, eithriad neu ostyngiad yn annigonol o ystyried yr amgylchiadau. Wrth benderfynu a ddylid caniatáu cymorth dewisol, bydd y Cyngor yn ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant (ac eithrio ceisiadau gan unigolion neu ar gyfer anheddau sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn Adran 1 y polisi hwn). Bydd egwyddorion rhesymoldeb yn cael eu defnyddio ym mhob achos gyda'r Awdurdod yn penderfynu ar bob achos ar sail ei rinweddau perthnasol.

Bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud heb gyfeiriad at unrhyw ystyriaethau cyllidebol er bod rhaid cydbwyso unrhyw ddyfarniadau yn erbyn anghenion trethdalwyr lleol a fydd, yn y pen draw, yn talu am unrhyw ostyngiad yn incwm y Dreth Gyngor. Yn yr un modd, bydd cyfnod unrhyw daliadau gostyngol yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag amgylchiadau talwr y dreth gyngor neu'r annedd. I ddibenion gweinyddu, mae'r Cyngor yn cynnig y dylai'r pŵer dewisol i ganiatáu unrhyw ostyngiad yn y Dreth Gyngor gael ei ystyried o fewn y categorïau canlynol:-

#### a) Caledi ariannol eithriadol

Yn unol ag Adran 13A (1) (b) o DCLlL 1992, mae gan y Cyngor hwn Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n darparu cymorth, ar ffurf gostyngiad, i'r sawl sydd angen cymorth i dalu eu costau Dreth Gyngor. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i gymryd i ystyriaeth amgylchiadau ariannol a phenodol unigolion trwy ddefnyddio symiau a phremiymau perthnasol a thrwy ddiystyru incwm.

Derbynnir ceisiadau o dan Bolisi Rhyddhad Dewisol y Dreth y Gyngor ar gyfer pobl sydd yn gymwys am gymorth yn unol â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Gall pob trethdalwr wneud cais, fodd bynnag, ond fel rheol bydd y Cyngor, yn y lle cyntaf, yn disgwyl i drethdalwr ganfod a yw'n gymwys ar gyfer Gostyngiad yn y Dreth Gyngor.

Fel rhan o'r broses o gyflwyno cais am ostyngiad dewisol yn y Dreth Gyngor, rhaid i bob ymgeisydd fod yn barod i wneud y **cyfan** o'r isod:-

- Gwneud cais ar wahân am gymorth;
- Rhoi manylion llawn am eu hincwm a'u gwariant (darperir ffurflen i'r pwrpas hwn);
- Rhaid i'r trethdalwr fedru bodloni'r Cyngor nad ydynt yn gallu talu eu dreth gyngor yn llawn neu'n rhannol;
- Nodi newidiadau posibl mewn dulliau talu a threfniadau i gynorthwyo'r ymgeisydd;
- Y trethdalwr i gynorthwyo'r Cyngor i ostwng y swm sy'n daladwy ganddynt drwy sicrhau eu bod wedi ymgeisio am yr holl ddisgowntiau, eithriadau a gostyngiadau yn y modd priodol a bod y rhain wedi eu caniatáu; a
- Nad oes gan y trethdalwr asedau y gellid eu gwireddu a'u defnyddio i dalu'r Dreth Gyngor.

Bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried wrth asesu'r cais o dan y polisi hwn:-

- Cyfansoddiad presennol yr aelwyd ac amgylchiadau penodol gan gynnwys anableddau neu gyfrifoldebau gofalu;
- Amgylchiadau ariannol presennol;
- Penderfynu ar y cam(au) y mae'r ymgeisydd wedi eu cymryd i leddfu'r sefyllfa;
- Ystyried dulliau eraill o gymorth a all fod ar gael i'r ymgeisydd trwy:-

**i.** Ailbroffilio dyledion dreth gyngor neu ddyledion eraill;
**ii.** Gwneud cais am Dâl Tai Dewisol i gwrdd â chostau rhent (os yw'n berthnasol);
**iii.** Sicrhau cymaint o fudd-daliadau eraill ag sy’n bosibl (trwy mofyn cyngor lles);
**iv.** Penderfynu a ddylai blaenoriaethau gwariant yr ymgeisydd, ym marn y sawl sy’n gwneud penderfyniad, gael eu haildrefnu yn wyneb y ffaith bod y Dreth Gyngor yn ddyled y mae angen rhoi blaenoriaeth iddi;

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

**b) Argyfwng - llifogydd, tân ac ati**

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am gymorth gan dalwr y dreth gyngor sydd, heb unrhyw fai arnynt eu hunain, wedi dioddef argyfwng neu ddigwyddiad sy’n golygu nad yw eu tŷ yn addas i fyw ynddo, e.e. tân neu lifogydd, lle maent yn parhau i fod yn atebol i dalu’r dreth gyngor a heb unrhyw fodd o gael iawndal neu unrhyw eithriadau neu ddisgowntiau statudol.

Rhaid gwneud pob cais o'r fath yn ysgrifenedig yn manylu ar yr **union** amgylchiadau sy’n berthnasol i’r gostyngiad y gofynnir amdano ac yn nodi pryd y disgwylir i'r sefyllfa gael ei datrys.

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau fesul achos mewn ymgynghoriad â gwasanaethau neu sefydliadau eraill fel sy'n briodol. Bydd unrhyw ostyngiad yn cael ei ganiatáu mewn achosion lle maent yn parhau i fod yn atebol i dalu’r dreth gyngor a dim hawl ganddynt i unrhyw iawndal neu eithriadau neu ddisgowntiau statudol neu lle nad yw’r digwyddiad wedi cael ei gynnwys mewn unrhyw bolisi yswiriant. Ni fydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan drethdalwyr lle mae canllawiau neu bolisi datganoledig gan y llywodraeth yn darparu ar gyfer gostyngiad mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft, cynlluniau rhyddhad ar gyfer llifogydd.

**c) Amgylchiadau eraill**

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan y rheini sy’n talu’r Dreth Gyngor am ostyngiad yn eu dreth gyngor yn seiliedig ar amgylchiadau eraill nad ydynt wedi eu crybwyll yn benodol yn y polisi hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor fod o'r farn bod yr amgylchiadau sy'n berthnasol i’r cais yn teilyngu gostyngiad pellach yn y Dreth Gyngor y maent yn atebol i’w thalu, gan ystyried yr effaith ar Drethdalwyr eraill y Cyngor.

Ni chaniateir gostyngiad yn y dreth sydd i’w thalu mewn amgylchiadau lle gellid caniatáu eithriad neu ddisgownt statudol. Ni chaniateir gostyngiad yn y dreth gyngor lle byddai hynny'n gwrthdaro ag unrhyw un o benderfyniadau, blaenoriaethau craidd neu amcanion y Cyngor.

## CH. Newidiadau mewn amgylchiadau

Gall y Cyngor adolygu unrhyw ostyngiad dewisol yn y dreth sy’n daladwy a ganiatawyd dan Adran 1 ac Adran 2 lle mae amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid.

Mae'r trethdalwr yn cytuno bod rhaid iddo / iddi hysbysu'r Cyngor ar unwaith naill ai dros y ffôn, drwy e-bost neu yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau a allai effeithio ar yr hawliad dan y polisi hwn. Gall methu â gwneud hynny arwain at dynnu'n ôl y gostyngiad a ganiatawyd am y flwyddyn a mynnu ad-daliad o unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Cyngor. Rhaid rhoi gwybod am yr holl newidiadau mewn amgylchiadau ymhen 21 diwrnod.

**D. Dyletswyddau'r ymgeisydd ac aelwyd yr ymgeisydd**

Rhaid i berson sy'n hawlio unrhyw ostyngiad dewisol yn y dreth gyngor sy'n daladwy:-

- Roddi i'r Cyngor unrhyw wybodaeth y mae ei hangen i wneud penderfyniad;
- Dweud wrth y Cyngor am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a all fod yn berthnasol i'w hawliad; a
- Rhoi i'r Cyngor unrhyw wybodaeth arall y gall fod ei hangen mewn cysylltiad â'u hawliad.

**DD. Y dyfarniad a chyfnod y gostyngiad yn y dreth gyngor**

Pennir swm a hyd y dyfarniad yn unol â disgresiwn y Cyngor a gwneir hynny ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd ac amgylchiadau'r hawliad.

Bydd y Cyngor yn pennu dyddiad cychwyn taliad o'r fath a hyd unrhyw daliad. Serch hynny, ni fydd unrhyw ddyfraniad yn mynd y tu draw i ddiwedd y flwyddyn ariannol y rhoddwyd y dyfarniad ar ei chyfer oni bai bod yr achosion penodol a nodir yn Adran 1 y polisi hwn yn datgan fel arall.

**E. Taliad**

Yn unol â deddfwriaeth, bydd unrhyw ddyfarniad yn cael ei ganiatáu fel gostyngiad o ran y swm y bydd y Trethdalwr yn ei dalu i'r Cyngor ac a ddangosir ar eu bil, felly'n lleihau swm y dreth gyngor sy'n daladwy.

**F. Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor a roddwyd drwy gamgymeriad neu yn anghywir**

Lle mae gostyngiad wedi ei ganiatáu yn anghywir neu drwy gamgymeriad, naill ai oherwydd methiant i ddarparu'r wybodaeth gywir i'r Cyngor neu oherwydd amgylchiadau eraill, bydd y swm yn cael ei adennill o gyfrif y Trethdalwr yn y ffordd arferol.

**FF. Hysbysiad o ostyngiad yn y swm taladwy**

Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad pob cais. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys y rheswm dros y penderfyniad ac yn cynghori'r ymgeisydd am eu hawliau i apelio.

**G. Cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ac apeliadau**

Bydd unrhyw ryddhad a roddir yn unol ag Adran 1 y polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan swyddog ar lefel Arweinydd Tîm neu uwch yn nhîm y Dreth Gyngor.

Bydd unrhyw ryddhad a roddir yn unol ag Adran 2 y polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu Reolwr y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau a bydd swyddog ar lefel Arweinydd Tîm neu uwch yn nhîm y Dreth Gyngor yn cyflwyno adroddiad i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu Reolwr y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau i'w ystyried wrth wneud y penderfyniad.

Gall trethdalwyr ofyn i'r Cyngor adolygu penderfyniad mewn perthynas â rhyddhad dewisol. Dylid cyflwyno cais ysgrifenedig am ailystyried penderfyniad ymhen 21 diwrnod o gael gwybod am y penderfyniad gwreiddiol a dylid nodi'r rhesymau dros y cais.

Ar ôl derbyn cais i ailystyried cais, bydd penderfyniadau a wneir dan Adran 1 y polisi yn cael eu hadolygu gan uwch swyddog o fewn tîm y Dreth Gyngor / Adnoddau. Ar gyfer penderfyniadau a wneir dan Adran 2 y polisi, yn dibynnu ar bwy wnaeth y penderfyniad, gellir eu hadolygu gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu gan unrhyw un o'r Prif Weithredwyr Cynorthwyol. Bydd y Cyngor yn hysbysu'r trethdalwr o'i benderfyniad o fewn 21 diwrnod o dderbyn y cais i ailystyried y penderfyniad.

Nid oes gan y Tribiwnlys Prisio awdurdodaeth i ymchwilio i benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor ar achosion unigol mewn perthynas â rhyddhad dewisol dan Adran 13A yn Adran 2 y polisi. Mewn achosion o'r fath, mae'r Tribiwnlys Prisio o'r farn y dylai trethdalwyr y cyngor wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

Os yw trethdalwyr y Cyngor yn anfodlon â phenderfyniad y Cyngor i wrthod glynu wrth ei benderfyniad ei hun i ganiatáu gostyngiad i rai categorïau penodol, gall apelio ymhellach i Dribiwnlys Prisio.

**Adran 3**

**NG. Adolygu'r Polisi**

Adolygir y polisi hwn yn rheolaidd a'i ddiweddaru fel bo'n briodol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas. Fodd bynnag, efallai y bydd adolygiad yn digwydd yn gynt os bydd unrhyw newidiadau sylweddol mewn deddfwriaeth.